CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

Cofnodion Cyfarfod Zoom Mawrth y 1af, 2022

Presennol: Lynda Massarelli, Meredydd Williams, , Eurwyn Jones, Eirian Hoyle,

1. Ymddiheuriadau: Tomos Ephraim, Gareth Jones

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf. LM, EH

3. Materion yn codi o'r cofnodion

3.377 Safle Bws Gellilydan: Meredydd Williams mewn cysylltiad a Chyngor Gwynedd, (cadw mlaen).

3.378 Bron Gelli – clerc I gysylltu ac Adrian Williams er mwyn cael gwybod beth oedd canlyniad yr archwiliad gan y Peiriannydd Strwythurol.

3.379 Gors Fach, Gellilydan – ymateb wedi ei dderbyn gan Iwan ap Trevor –

'Wrth gwrs, mae materion diogelwch y ffyrdd yn bwysig iawn i ni fel y cyngor, ac rydym bob amser yn ceisio darganfod ffyrdd i wella diogelwch ar ein rhwydwaith.

Yn fis Ionawr, cynhaliwyd cyfarfod rhwng Cynghorydd Elfen Roberts ag Ashley Evans o'r gwasanaeth mewn perthynas â materion traffig ar y ffordd ger Gors fach.

Yn ystod y cyfarfod trafodwyd y posibilrwydd o osod gwaharddiadau parcio, Llinellau melyn, ger Cors Fach yn ogystal ag ymestyn y cyfyngiadau cyflymder 20mya.

Mewn perthynas â'r llinellau melyn, yn fis Ebrill mi fyddwn yn cyflwyno cynllun i chwi parthed i'r hyn a chytunwyd ar y safle fel bod modd i chwi rhoi eich barn ar y cynlluniau.

Fel rhan o gynllun ehangach, mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio ar gynllun i newid cyfyngiadau 30mya i 20mya ar draws y sir. Fel rhan o'r cynllun canlynol, byddwn yn rhoi sylw penodol i Ellilydan. Ein bwriad yw cyflwyno'r newidiadau erbyn mis Ebrill 2023'.

3.380 Gwesty Grapes Maentwrog – Tir dros ffordd i'r Gwesty wrth Tan Lan, cadw mlaen.

3.381 Cae chwarae Maentwrog – Giat i'r cae chwarae – trafod opsiynau, cadw mlaen.

3.382 Cae Chwarae Gellilydan – Dwr yn hel o dan y matiau: Clerc i ail-cysylltu a Dylan Rhys Parry o Adra am adroddiad.

3.383 Gofeb – Dyfynbris wedi ei dderbyn, cyfarfod safle wedi ei drefnu at fore Sadwrn. Mawrth 5ed. Gareth Jones yn datgan diddordeb.

17.5.22

CamScanner

3.384 Mynwent Dwyryd – clerc i ail-gysylltu gyda'r cyfreithiwr i ddrafftio llythyr i'w anfon at yr esgobaeth. (cadw mlaen).

3.385 Llwyn at Penglannau – arwyddion – clerc i\ ail-gysylltu a Ceri Hughes Thomas (Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd), gan ganol bwyntio nac yw y cyhoedd yn teimlo yn saff i gerdded ar y ffordd yma.

3.386 Penlan, Maentwrog – clerc i gysylltu a Richard Thomos o'r adran gynllunio – beth yw'r sefyllfa diweddaraf gyda'r cais, (cadw mlaen),

3.387 Sedd wag ar y Cyngor - Mr Harvey wedi ymddeol, clerc wedi bod mewn cysylltiad a Huw Elfed Roberts (Swyddog Gwasanaethau Eholiadol). 'Nid does angen llenwi sedd wag 6 mis cyn etholiad lleol), bydd gwybodaeth ynglyn ac etholiad mis Mai i ddilyn'.

3.388 Cyfarfod Blynnyddol: Cyfarfod Blynyddol i'w drefnu dros Zoom ar y'r 15fed o Fawrth. Hysbysiad i'w roi ar hysbysfwrdd Gellilydan ac Maentwrog i wahodd aelodau o'r cyhoedd.

4. Materion i'w trafod ar y pryd.

4. 156 Gelli Dywyll – Drych wedi ei osod.

4.157 Mynwent Utica – llythyr wedi ei dderbyn gan Mennai Jones, clerc i ysgrifennu nol iw ofyn am rhagor o wybodaeth. Eirian Hoyle ac Eurwyn Jones yn datgan diddordeb.

5. Ariannol

5.79 Gweler yr Atodiad sydd wedi ei gadarnhau gan aelodau y cyngor.

5.80 Lynda Massarelli wedi cael ffurflen o'r banc i gael newid y sawl sydd gyda'r hawl i arwyddion sieciau, hefyd i gael cau y cyfrif cynilio.

6. Cynllunio

Dim Ceisiadau

7. Gohebiaeth

204. Cyngor Gwynedd – Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllaw Cynllunio Atodol.

205 Cyngor Gwynedd - Biniau Halen – (bydd halen yn cael ei ddarparu yn ddi-dal o hyn allan).

206 Cyngor Gwynedd – Rhaglen Waith mis Chwefror 2022.

207 Cyngor Gwynedd - Rhaglen Waith mis Mawrth 2022.

8. Adroddiad o gyfarfodydd eraill

Dim newyddion

9. Dyddiad cyfarfod nesaf

Cyfarfod Blynyddol, Mawrth 15ed, Zoom.

17-5-22

CamScanner